




ESR PCGC Newid cronfa ddata: Newid mewnlol

Cwestiynau Cyffredin

Cyflwyniad

Ar ddydd Sul 6 Mehefin, bydd PCGC yn cynnal ymarfer i drosglwyddo'r holl weithwyr o gronfa ddata ESR 120 (Felindre) i'w cronfa ddata ESR 043 ei hun.

Mae'r newid yn ofynnol oherwydd bod gweithlu PCGC wedi ehangu'n ddiweddar i gynnwys Cyflogwr Arweiniol Sengl Meddygon Iau, y Bartneriaeth Banc Cydweithredol, y Gwasanaeth Archwilio Meddygol a'r Gwasanaethau Golchi; a hefyd i sicrhau bod adrannau yn PCGC yn gallu rheoli staff a phrosesau yn effeithlon trwy un gronfa ddata ESR.

Ein bwriad yw esbonio'r newid yn glir trwy gydol y broses. Yn ystod sgysiau â thimau rheoli, mae'n bosibl y cyfeirir at y gwaith hwn fel 'MOCP' (proses newid sefydliadol torfol) a gellir defnyddio'r term technegol 'VPD' (cronfa ddata breifat rithwir) ar gyfer y gronfa ddata hefyd.

Cyfathrebu

Byddwn yn cyfathrebu â staff i sicrhau bod ein cydweithwyr i gyd yn cael eu briffio'n llawn trwy gydol y broses newid. Mae gennym gynllun cyfathrebu cadarn a byddwn yn cyfathrebu trwy'r sianeli canlynol:

- Tudalennau gwe pwrpasol (rhyngrwyd a mewnrwyd)
- E-bost (Cyfathrebiadau'r
- Cylchlythyrau PCGC / diweddariadau cylchlythyrau ochr staff/Undeb
- Cofnod Staff Electronig (ESR)
- Slipiau cyflog
- Briff staff wythnosol Rheolwr Gyfarwyddwr PCGC
- Trwy'r porth Treuliau
- Diweddariadau i reolwyr eu dosbarthu trwy Microsoft Teams
- Boreau Coffi Rhithwir.

Bydd swyddogaeth Holi ac Ateb wedi'i chymedroli ar gael fel y gall pob aelod o staff ofyn cwestiynau a chael atebion gan yr is-adrannau perthnasol. Yna bydd y sesiwn Holi ac Ateb yn cael ei chyhoeddi trwy dudalennau pwrpasol ar fewnrwyd y staff. Y cyfeiriad e-bost ar gyfer y swyddogaeth Holi ac Ateb yw: shared.services@wales.nhs.uk

Beth yw goblygiadau hyn i mi?

Os oes gennych enw defnyddiwr ESR sy'n dechrau gyda 120, bydd eich cofnod cyflogaeth yn cael ei symud dros nos ar nos Sul 6 Mehefin i'r gronfa ddata ESR 043 newydd. **Nid yw'r trosglwyddiad yn effeithio ar eich contract cyflogaeth, na thelerau ac amodau eich cyflogaeth.**



ESR

A effeithir ar y system ESR o ganlyniad i'r symud data?

Bydd y system ESR all-lein o 18:00 ddydd Gwener 4 Mehefin 2021 tan 08:00 ddydd Llun 7 Mehefin er mwyn trosglwyddo'r cofnod staff electronig o 120 i 043.

A fydd gen i enw defnyddiwr a chyfrinair newydd?

Bydd, bydd yr holl staff a fydd yn trosglwyddo yn cael cyfrif defnyddiwr ESR 043 newydd, a bydd eich cyfrif ESR 120 yn cau. Bydd staff sydd â chyfeiriad e-bost a gofnodwyd yn ESR cyn y trosglwyddiad yn derbyn e-bost yr wythnos yn dechrau 7 Mehefin 2021 gyda manylion mewngofnodi eu cyfrif ESR newydd.

Bydd angen i staff heb gyfrif e-bost gysylltu â Hwb Cymorth ESR (manyion isod). Bydd gofyn i staff ddarparu eu henw a'u rhif Yswiriant Gwladol er mwyn gwirio eu hunaniaeth.

■ Ffôn: 02920 905400

■ Sgwrs fyw: <http://www.nwssp.wales.nhs.uk/esr-community-hub>

■ E-bost: esrhub.wales@wales.nhs.uk

A fydd gen i rif cyflogres newydd?

Bydd, bydd staff sy'n trosglwyddo o VPD 120 i VPD 043 yn cael rhif cyflogres newydd o ganlyniad i'r trosglwyddo. Bydd eich rhif cyflogres newydd ar gael i chi trwy eich cyfrif defnyddiwr ESR 043 newydd.

A fydda i'n gallu cael mynediad at fy slipiau cyflog electronig ar ôl trosglwyddo?

Cynghorir staff y byddant, fel rhan o'r broses drosglwyddo, yn derbyn rhif cyflogres newydd wrth gael eu trosglwyddo o VPD 120 i VPD 043, a fydd yn golygu na fydd staff bellach yn gallu cael gafael ar slipiau cyflog electronig a P60s a gyhoeddwyd yn flaenorol trwy VPD ESR 120 ar ôl y trosglwyddo.

Felly, os yw staff yn dymuno cadw copïau o slipiau cyflog a P60s electronig, **rhaid iddynt** argraffu'r rhain neu eu harbed yn ddiogel cyn **dydd Gwener 4 Mehefin 2021** (rydym yn argymhell arbed/argraffu slipiau cyflog y 3 mis diweddaraf o leiaf).

Ar ôl trosglwyddo, byddwch yn gallu gweld eich slipiau cyflog a'ch P60s newydd (o fis Mehefin ymlaen) ar y VPD ESR 043 o dan eich rhif staff newydd yn y ffordd arferol.

Beth os nad oes gen i fynediad at argraffydd?

Cynghorir staff y gellir arbed slipiau cyflog a P60s yn ddiogel a'u hargraffu maes o law.

Beth sy'n digwydd os nad ydw i yn y gwaith, os nad ydw i'n gallu cael mynediad at ESR gartref ac mae angen slipiau cyflog a P60s wedi'u hargraffu arnaf ar ôl 31 Mawrth 2021?

Mae'r tîm Cyflogres sy'n cefnogi'r hen VPD 120 yn gallu cael gafael ar gopïau o slipiau cyflog a P60s blaenorol. Mewn amgylchiadau eithriadol efallai bydd cydweithwyr cyflogres yn gallu hwyluso argraffu slipiau cyflog sydd eu hangen, ond efallai y bydd cost yn gysylltiedig â hyn, y bydd gofyn i unigolion ei thalu o bosibl.

A fydd gen i fynediad at hen wybodaeth ariannol megis dyfarniadau cyflog?

Byddai'r holl wybodaeth ariannol wedi'i chynnwys yn y slip cyflog, felly rydym yn cynghori'n gryf bod y rhain yn cael eu hargraffu neu eu cadw'n ddiogel cyn yr amser segur **ddydd Gwener 4 Mehefin 2021**.

Os ydw i'n trosglwyddo, a fydd fy nata hyfforddiant statudol a gorfodol yn trosglwyddo?

Cyn belled â bod y data yn cael eu cadw yn system VPD ESR 120 ar hyn o bryd, bydd cofnodion staff sy'n cael eu trosglwyddo gan IBM yn cynnwys hyfforddiant statudol a gorfodol a wnaed eisoes.

Rwy'n Rheolwr – yn dilyn trosglwyddo'r data, sut ydw i'n rhoi gwybod i'r tîm cyflogres am unrhyw newidiadau parhaol, dechreuwyr a'r rhai sy'n gorffen yn fy nhîm/nhimau?

Bydd y ffurflenni cyflogres cyfredol yn cael eu diwygio'n awtomatig i sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno i gyfeiriad e-bost cyflogres newydd. Bydd y ffurflenni hyn ar gael ar y fewnwyd.

Cyflogres

Pan fyddwn yn symud i VPD 043, a fydd fy rhif Aseiniad/Cyflogres yn newid?

Bydd, byddwn yn rhoi gwybod i chi am y newid.

A fydd ein cyfeirnod Swyddfa Dreth yn newid?

Bydd, er mwyn eich symud o un VPD i un arall, yng ngolwg CThEM mae hyn yn newid i'r Cod Treth. Eich Cyfeirnod Swyddfa Dreth newydd fydd 475/ZE27433.

A fydd fy nghofnod yn cael ei derfynu o fy VPD cyfredol?

Oherwydd y broses o'ch symud chi, bydd eich cofnod yn eich VPD cyfredol yn dod i ben, a bydd cofnod newydd yn cael ei greu yn y VPD 043 newydd. Nid yw'r symud hwn yn effeithio ar eich contract cyflogaeth na thelerau ac amodau eich cyflogaeth chwaith.

Os bydd yn cael fy nghofnod yn cael ei derfynu, a fydd hyn yn effeithio ar fy ngwasanaeth?

Eich dyddiad cychwyn yn y VPD newydd fydd 1 Mehefin 2021, ond bydd eich dyddiadau Gwasanaeth Parhaus yn trosglwyddo, felly o ran Gwyliau Blynnyddol ac Absenoldeb Salwch, ni fydd eich hawliau'n newid.

Byddaf ar absenoldeb mamolaeth ar adeg y symud – beth fydd yn digwydd i fy absenoldeb mamolaeth?

Bydd eich absenoldeb mamolaeth yn parhau fel ag y byddai pe na bai'r trosglwyddiad wedi digwydd. Ni welwch unrhyw newid.

Rwyf ar absenoldeb salwch ar hyn o bryd – beth fydd yn digwydd yn ystod y trosglwyddiad?

Bydd eich absenoldeb salwch yn parhau ynghyd â'ch hawliau, felly bydd pryd roedd eich hawl i fod i newid neu ddod i ben yn aros yr un peth.

A fyddaf yn dal i gael P11D ar gyfer fy nghar?

Byddwch, byddwch yn dal i gael P11D o'ch hen VPD ar gyfer y flwyddyn dreth 2020/2021. Byddwch yn cael dwy yn y flwyddyn dreth 2021/2022, un o fis Ebrill i fis Mai 2021 gan VPD 120 ac un gan VPD 043 am weddill y flwyddyn. Ni fydd hyn yn cael effaith ar eich Treth.

Beth os yw fy nghar yn Fuddiant mewn Nwyddau trwy'r Gyflogres (PBIK)? Sut fydd hyn yn gweithio?

Os yw eich car yn PBIK ar hyn o bryd, bydd y trefniant yn parhau, fel arall, yr un ateb ag uchod sy'n wir.

Cyflogres

A fydd gennym rif cyswllt gwahanol ar gyfer CThEM?

Na, mae'r rhif ffon ar gyfer CThEM yn aros yr un peth, sef 0300 200 3300. Cofiwch gael eich rhif Yswiriant Gwladol a Chyfeirnod y Swyddfa Dreth yn barod. Gellir dod o hyd i'r rhain ar eich slip cyflog.

Trwy newid VPD, a fydd hyn yn effeithio ar fy Nhreth neu Yswiriant Gwladol?

Na, ni fyddwch yn gweld newid i faint o Dreth neu Yswiriant Gwladol yr ydych yn ei dalu.

A oes angen i mi roi gwybod i CThEM fy mod wedi newid VPD?

Na, byddwn ni'n gwneud hyn yn awtomatig.

A fydd gennym rifau cyswllt gwahanol ar gyfer tîm y Gyflogres?

Na, fydd dim newid.

Beth os bydd gennyf ymholiad am fy nghyflog rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mai 2021 ond nid wyf yn sylwi arno tan fis Mehefin 2021?

Ni fydd hyn yn broblem. Cysylltwch â'r tîm Cyflogres yn y ffordd arferol. Byddant yn gallu datrys hyn i chi.

A fydd hyn yn effeithio ar fy Mhensiwn?

Na, ni fydd yn effeithio ar eich pensiwn. Byddwn yn rhoi gwybod i Asiantaeth Pensiynau'r GIG eich bod wedi trosglwyddo ar 1 Mehefin 2021 a bydd eich cofnodion yn cael eu diweddarau i adlewyrchu hyn.

Oes angen imi roi gwybod i'r Asiantaeth Bensiynau am y symud?

Na, bydd hyn yn cael ei wneud yn awtomatig i chi.

Treuliau

A fydd fy manylion mewngofnodi ar gyfer treuliau yn newid?

Byddant. Byddwch yn derbyn eich manylion mewngofnodi newydd unwaith y bydd y cyfrif wedi'i greu ar y system newydd.

A fydd gen i fynediad at fy hawliadau treuliau blaenorol?

Ni fydd modd cael mynediad at eich hawliadau blaenorol. Os oes angen mynediad at eich hawliadau blaenorol arnoch, gallwch wneud ymholiad gyda'r tîm hawliadau trwy'r Porth Treuliau i Gwsmeriaid:

<https://actionpoint.cymru.nhs.uk/ulite/?servicedesk=264>

A fydda i'n derbyn P11D?

Cynhyrchir P11D lle bydd ei angen ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a Mai 2021. Caiff y rhain eu dosbarthu erbyn mis Gorffennaf 2022. O fis Mehefin 2021, bydd yr holl filltiroedd ac unrhyw Fuddiant mewn Nwyddau yn cael eu hadrodd i CThEM mewn amser real.

A fydd manylion fy ngherbyd yn cael eu trosglwyddo i fy nghyfrif newydd?

Ni fydd manylion cerbyd yn cael eu trosglwyddo i'ch cyfrif newydd. Bydd angen i chi ychwanegu cerbyd newydd a darparu eich manylion yswiriant a thrwydded yrru cyn gwneud hawliad am filltiroedd.

Bydd cerbydau Prydles ac Aberthu Cyflog yn cael eu trosglwyddo.

Teithio ychwanegol – mae milltiroedd ychwanegol yn ddyledus i mi, a fydd modd i mi wneud hawliad o hyd?

Bydd, bydd eich hawl i filltiroedd ychwanegol yn trosglwyddo i'ch cyfrif newydd.

A yw hi'n ofynnol i mi ddarparu fy manylion yswiriant a thrwydded yrru ar gyfer milltiroedd ychwanegol?

Na, nid oes angen dyletswydd i ofalu ar gyfer milltiroedd ychwanegol.

Beth yw Buddiannau trwy'r Gyflogres?

Mae hwn yn newid i'r ffordd y rhoddir gwybod i CThEM am dreth a delir ar fuddiannau (aberthu cyflog a char prydles). Nid oes newid i faint o dreth y byddwch chi'n ei thalu ar y buddion hyn o'i gymharu â'r system flaenorol.

Bydd y dreth rydych chi'n ei thalu bellach yn cael ei chyfrifo ar y buddiant mewn nwyddau a'i dangos ar eich slip cyflog bob mis, yn hytrach na thrwy addasiad i'ch cod treth. Mae hyn yn golygu y byddwch yn talu treth mewn 'amser real' ac ni fydd buddiannau trwy'r gyflogres yn ymddangos ar eich datganiad buddiannau P11D mwyach. Ni fyddwch yn derbyn datganiad buddiannau P11D mwyach o flwyddyn dreth 2021/2022 ymlaen, oni bai bod y budd neu ran o'r budd trwy'r Gyflogres.

Beth yw Dyletswydd i Ofalu?

Mae'r Ddyletswydd i Ofalu yn gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod cerbyd aelod o staff, y mae disgwyl iddo wneud teithiau busnes, yn addas at y diben, yn cael ei gynnal a'i gadw'n iawn, a bod gan y gyrrwr y trwyddedau priodol i yrru'r cerbyd. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yma: [Dyletswydd i Ofalu](#)

